Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn
Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 9 Medi 2019 am **8:00p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, Gavin Harris, John Wynne Hughes, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

19. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

20. DATGAN BUDDIANNAU
Datganodd y Cynghorydd Ken Hawkins fudd yn eitem 6 ar yr agenda, yn benodol cais cynllunio 02/2019/0618 am estyniadau i annedd yn 52 Erw Goch, Rhuthun, gan fod y cais yn ymwneud ag eiddo cymydog iddo.

21. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2019 yn gywir.

22. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

23. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:
02/2019/0460 a 0461 (cais Adeilad Rhestredig) – 2A Stryd y Llys, Rhuthun – Gosod system wresogi ddomestig nwy gyda boeler nwy a ffliw cytbwys – Caniatawyd
02/2019/0381 – Ysgol Fonedd Rhuthun, Ffordd yr Wyddgrug, Rhuthun – Hysbysiad ymlaen llaw ynghylch dymchwel bloc ffreutur a'r strwythur cysylltiol cysylltiedig – Ddim yn ofynnol
02/2019/0405 – Oakleigh, 12 Ffordd Llanfair, Rhuthun – Creu mynedfa newydd i gerbydau, ardal barcio a gwaith cysylltiedig - Caniatawyd
02/2019/0517 – Tŷ Cefn, Llanfwrog, Rhuthun – Adeiladu sied storio amaethyddol a ffurfio trac cysylltiedig - Caniatawyd
02/2019/0524 – Tir yn 46 Parc y Castell, Rhuthun – Manylion draeniad dŵr budr, dŵr arwyneb a draenio tir a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 4 caniatâd cynllunio 02/2019/0257/PF – Cymeradwywyd
02/2019/0303 – Ysbyty Gymuned Rhuthun, Stryd Llanrhydd, Rhuthun – Dymchwel yr estyniad to gwastad sy'n bodoli ac adeiladu estyniad unllawr newydd i ddarparu cyfleusterau meddyg teulu newydd, addasiadau mewnol ac uwchraddiol - Caniatawyd
02/2019/0615 – Tir yn Fron Haul, Stryd y Rhos, Rhuthun – Gwaith ar goed yn rhan o Orchymyn Cadw Coed Cyngor Dosbarth Glyndwr - Caniatawyd
02/2019/0630 – Scott House, Ffordd Corwen, Rhuthun – Gwaith ar goed yn ddarostyngedig i Orchymyn Cadw Coed – Caniatawyd

24. CEISIADAU CYNLLUNIO
Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn.*

02/2019/0723 – Capel Tabernacl, Stryd y Ffynnon, Rhuthun
Torri a gwaith ar goed yn Ardal Gadwraeth Rhuthun
Roedd Cynghorwyr yn awyddus i weld plannu coed rhywogaeth mwy priodol yn lle'r coed i'w torri.
02/2019/0728 – 64 Stryd Mwrog, Rhuthun
Adeiladu estyniad i'r annedd a gwaith cysylltiedig.
02/2019/0729 – Rugog, Ffordd Llanfair, Rhuthun
Adeiladu estyniad i'r annedd.
02/2019/0618 – 52 Erw Goch, Rhuthun

Adeiladu estyniadau i'r annedd.
02/2019/0749 – Alltwen, Galltegfa, Rhuthun
Adeiladu estyniad deulawr yng nghefn yr annedd.

25. YMGYNGHORIAD STRATEGAETH DDRAFFT A FFEFRIR CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2018-2033

Gofynnwyd i'r aelodau edrych ar y dogfennau cyn y cyfarfod, yn enwedig y 10 safle ymgeisiol yn Rhuthun, y cyfan wedi'u cynnig fel safleoedd tai/preswyl. Dywedodd rhai Cynghorwyr eu bod wedi mynd i'r arddangosfa ymgynghori ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych. Roedd yr aelodau'n croesawu'r cynigion i ddefnyddio safleoedd tir llwyd yng Nghanol y Dre a chae chwarae cyn safle Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras. Roedd pryderon am y safleoedd arfethedig rhwng Ffordd Corwen a Ffordd Wrecsam, gan ei fod yn cael ei gyfri yn 'leoliad hanfodol' yng nghyswllt Castell Rhuthun ac mae'n wybyddus bod y safle'n mynd o dan ddŵr yn rheolaidd. Mynegwyd pryderon tebyg ynghylch y safle ymgeisiol ar Ffordd yr Wyddgrug, a fyddai'n cael effaith andwyol wrth ddynesu at Rhuthun ac ar yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd safle ymgeisiol oddi ar Ffordd Dinbych yn cydymffurfio â'r polisïau yn y Strategaeth a Ffafrir a gofynnwyd am beidio â'i gynnwys, a dynodi safle Glasdir ar gyfer defnydd hamdden yn hytrach na thai.
PENDERFYNWYD: *ymateb i Adran Polisi Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych gyda'r sylwadau uchod.*

26. CAIS AM DRWYDDED AMGYLCHEDDOL I WEITHREDU PEIRIANT YN: CLIFFORD JONES TIMBER LTD, LÔN GWERNYDD, RHUTHUN, SIR DDINBYCH, LL15 2TN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y cais uchod i weithredu peiriant ar gyfer cadwraeth pren yn cynnwys cemegion ar y safle.
PENDERFYNWYD*: nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais.*

27. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 7 Hydref 2019 am 8pm.*